

Pwyllgor Datblygu Economaidd**COFNODION****Dyddiad:** 18 Hydref 2000**Amser:** 2.00 – 5.30pm**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru**Yn bresennol**

Aelodau	(Etholaeth)
Val Feld (Cadeirydd)	Dwyrain Abertawe
Ron Davies	Caerffili
Michael German (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd)	De Ddwyrain Cymru
Brian Gibbons	Aberafan
Brian Hancock	Islwyn
Phil Williams Dafydd Wigley	De Ddwyrain Cymru Caernarfon
Peter Rogers (eitem 6)	Gogledd Cymru

Swyddogion (Adran)

Derek Jones	Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd
David Pritchard	Cyfarwyddwr, Adran Diwydiant
Steve Phillips (eitem 4)	Pennaeth Adran Polisi Economaidd
John Clarke (eitem 8)	Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Gareth Edwards (eitem 4)	Adran Polisi Economaidd
Hugh Rawlings (eitemau 6 a 7)	Pennaeth Adran Materion Ewropeaidd
Dr Caroline Turner (eitem 6)	Adran Materion Ewropeaidd
Mike Pollard (eitem 7)	Adran Materion Ewropeaidd
Barbara Morris (eitem 5)	Polisi Hyfforddiant, Medrau a Gyrfaoedd

Roger Bonehill Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol

Cyfranwyr allanol (eitem 5)

Cadeirydd, Tasglu Medrau Cymru

Brian Connolly

Ian Rees Aelod o'r Tasglu

Sheila Drury Aelod o'r Tasglu

Ysgrifenyddiaeth

John Grimes Clerc

Jo Trott Dirprwy Glerc

Jo Glenn Dirprwy Glerc

Ymddiheuriadau a Dirprwyadau

- Glyn Davies yn lle Alun Cairns

Eitem 1: Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor a'r aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod. Llongyfarchodd Mike German ar ran y Pwyllgor ar ei benodi i'r Cabinet, croesawodd Glyn Davies a oedd yn dirprwyo dros Alun Cairns, a John Grimes, y Clerc Pwyllgor newydd. Gwahoddodd yr Aelodau i gyfrannu yn y Saesneg neu'r Gymraeg ac atgoffodd hwy am yr angen i ddatgan unrhyw fuddiant a oedd ganddynt.

1.2 Atgoffodd yr Aelodau fod angladd Donald Dewar yn digwydd ar y pryd. Gwahoddodd y rhai a oedd yn bresennol i sefyll mewn distawrwydd am ddwy funud er cof amdano, a'r rôl allweddol a chwaraeasai mewn datganoli.

Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod ar 13 Medi 2000

Cywirdeb

- Paragraff 7.2 Cytunwyd y dylid newid y cofnodion i ddangos bod cais wedi ei gyflwyno am eglurhad ar y ddadl dros rannu'r WDA. **[Cam Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor]**

Camau i'w Gweithredu

- Ynghylch eitem 1, nododd y Cadeirydd ei bod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cynulliad i ofyn am drafodaeth. Nododd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ei fod yn awyddus i weld y seminar arfaethedig yn digwydd ac y byddai'n adrodd ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
- Ymdrinid ag eitem 3 yn adroddiad ysgrifenedig y Gweinidog.
- Ynghylch eitem 5, nododd y Gweinidog fod amrywio cyllidol yn rhan bwysig o gytundeb y glymblaid. Byddai'n darparu papur ar y mater i'r Aelodau. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
- Ymdrinid ag eitemau 11 a 12 yn adroddiad ysgrifenedig y Gweinidog.
- Ynghylch eitem 13, nododd y Gweinidog y byddai enghraifft o becyn y gellid ei gynnig i fewnfuddsoddwr yn cael ei dosbarthu

cyn hir. Sicrhawyd yr Aelodau y'i derbynid mewn da bryd fel y gellid ei archwilio'n iawn. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

- Ynghylch eitem 22, cytunodd y Gweinidog i ddarparu adroddiad pellach ar drafodion y Tasglu. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
- Ynghylch eitem 25, nododd y Cadeirydd fod llythyr oddi wrth y Prif Ysgrifennydd wedi ei ddsbarthu i'r Aelodau.
- Ynghylch eitem 30, nododd y Cadeirydd ei bod bellach wedi derbyn sylwadau ar lythyr drafft gan yr Aelodau ac y byddai'r fersiwn terfynol yn mynd allan cyn hir. **[Cam Gweithredu: Y Cadeirydd a'r Clerc]**
- Ar ben hynny, cafwyd galwad am weithredu ar baragraff 4.3 o gofnodion 13 Medi, mewn perthynas â symbylu rhai sydd yn economaidd anweithredol. Cytunwyd y byddai'r Gweinidog yn darparu papur ar hynny cyn hir. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

Eitem 3: Adroddiad yr Ysgrifennydd Cynulliad

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan nodi bod yr oedi cyn derbyn adroddiad ysgrifenedig y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn ddealladwy o dan amgylchiadau ei benodiad yn ddiweddar. Fodd bynnag, ceisiodd a derbyniodd sicrwydd y câi'r papur ei ddsbarthu o leiaf ddiwrnod ymlaen llaw yn y dyfodol, fel y câi'r Aelodau gyfle i'w ystyried yn iawn. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

3.2 Rhoddwyd crynodeb gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd o'r materion allweddol yn ei adroddiad ysgrifenedig a gwahoddodd yr Aelodau i ofyn cwestiynau. Nododd y byddai'n falch o ateb cwestiynau ar y materion a godwyd. Yn ystod yr eitem hon, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd achosion eraill lle'r oedd cymorth wedi ei roi o dan gynllun arall, wedi i Fwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru wrthod cais am gymorth rhanbarthol dewisol. Mewn ymateb, dywedodd y swyddogion na allent gyfeirio at unrhyw achosion o'r fath ar y pryd, ond ei bod yn eithaf arferol defnyddio cymorth o nifer o gynlluniau er mwyn denu buddsoddiad.
- Codwyd cwestiynau ynghylch y defnydd o gymorth rhanbarthol dewisol i ddiogelu swyddi sydd yn bod eisoes ac argaeledd data wedi eu datgrynhai. Codwyd cwestiwn ynghylch rhai o'r diswyddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac a oedd cais am gymorth rhanbarthol dewisol wedi ei gyflwyno gan y cwmni mewn perthynas â'r swyddi. Dywedodd y swyddogion na fu cais yn ddiweddar. Cytunodd y Gweinidog, os oedd yr Aelodau'n ei chael yn anodd derbyn ffigurau rhanbarthol ar hyn, y dylent ysgrifennu'n uniongyrchol ato ef. Yn ystod y drafodaeth hon, mynegwyd pryder ynghylch cyfeiriadau at gwmnïau unigol. Nodwyd bod ar y Cynulliad ddyletswydd o ran cyfrinachedd tuag at y cwmnïau hynny a oedd yn gysylltiedig â'r broses cymorth rhanbarthol dewisol ac mai amhriodol oedd trafod eu ceisiadau unigol am grant yn y Pwyllgor. Cytunwyd hefyd y byddai trafodaeth lawn ar gymorth rhanbarthol dewisol, a hynny i gynnwys mater y defnydd aml o'r grant i ddiogelu swyddi, mewn cyfarfod yn y dyfodol. **[Cam Gweithredu: Y Cadeirydd a'r Clerc]**
- Ynghylch Tasglu Dur Cymru Gyfan, eglurodd y swyddogion fod y grp yn ystyried dewisiadau ar gyfer defnyddio cyllid Amcan 1, ond bod amodau'r Comisiwn Ewropeaidd ar y defnydd o arian Amcan 1 yn y cyd-destun hwn yn llym iawn. Ynghylch y graddau yr oedd cwmnïau dur unigol yn gweithio ochr yn ochr â Chynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiogelu swyddi, a.y.b., cydnabu'r Aelodau fod yr holl negodiadau o'r fath yn digwydd yng nghyd-destun marchnad fyd-eang gystadleuol dros ben. Gwnaethid cynnydd, fodd bynnag, drwy waith y Gwasanaeth Cyflogaeth a chyrrff cysylltiedig, ar ddynodi'r rhai a oedd yn fwyaf tebygol o golli eu swyddi. Yr oedd hyn yn lleihau'r ansicrwydd ac yn golygu bod gwaith ar gynlluniau gweithredu lleol yn mynd rhagddo'n awr. At hynny, rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod y Cynulliad yn ymchwilio i'r holl ddewisiadau ar gyfer ailhyfforddi/uwchraddio medrau, a.y.b., oddi mewn i gyfyngiadau rheolau cymorth gwladol y Comisiwn Ewropeaidd.
- Yng nghyd-destun yr argyfwng tanwydd, cafwyd galwad am wneud rhestr o'r cwmnïau hynny a weithredai yn ôl cylch 24 awr. Cydnabuwyd bod hyn, a chwestiynau ynghylch pryderon iechyd a diogelwch ac amgylcheddol cysylltiedig, yn faterion yn y bôn i'r Pwyllgor Cynllunio Argyfwng.
- Cafwyd rhywfaint o drafod ar y dyfarniad llys diweddar ar Severn Trent, a oedd yn cadarnhau barn wreiddiol y Pwyllgor y dylai'r Adran Masnach a Diwydiant fod wedi trosglwyddo'r mater i'r Comisiwn Monopolïau.

3.3 Wrth grynhai, diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd am ei adroddiad cynhwysfawr.

Eitem 4: Adolygiad o'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Steve Phillips a Gareth Edwards i'r cyfarfod. Fe'u gwahoddodd i gyflwyno'r eitem, ac wrth iddynt wneud hynny gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn awyddus i glywed sylwadau'r Pwyllgor ar y papur, a byddai'n eu hystyried wrth gyweirio'r hyn a oedd yn ei hanfod yn ddogfen waith.
- Byddai'r papur yn sylfaen i bennod gyntaf y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol. Cyflwynid penodau pellach i'r Pwyllgor yn ystod y cyfarfodydd nesaf.
- Yr oedd yr amserlen ar gyfer llunio'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol yn gaeth iawn. Y bwriad oedd rhoi'r strategaeth ar waith cyn dechrau'r cylch cyllideb nesaf, gyda golwg ar ei gwneud yn sail i benderfyniadau ar y gyllideb. Er mwyn cyflawni hynny, gan gofio ymrwymiad y Prif Ysgrifennydd i ymgynghori cyhoeddus eang, byddai angen cytuno ar ddrafft cyntaf o'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol erbyn dechrau Rhagfyr.
- Yr oedd Atodiad A i'r papur yn cynnwys rhestr o naw o unigolion a oedd yn ystyried y ddogfen ar y pryd. Byddent yn porthi eu sylwadau i'r Cynulliad.
- Man cychwyn y papur oedd y drafodaeth mewn cyfarfod blaenorol ar y gyllideb, pan fu galwad am ddadansoddiad economaidd trylwyr o Gymru i fod yn sylfaen i'r ymarfer.

4.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad ac agorodd y llawr i drafodaeth, ac yn ystod hynny gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Yng ngolwg yr anawsterau a brofwyd wrth ddsbarthu'r papur, cytunwyd y byddid yn cylchredeg papurau, yn y dyfodol, o dan rif fersiwn. **[Cam Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor]**
- Bu trafodaeth helaeth ar y dull o drafod y broses. Teimlai'r Aelodau, er bod angen canolbwynt i'r ddogfen, ei bod yn hanfodol iddi hefyd gynnwys cynlluniau ar gyfer ei chyflawni, yn ogystal â thargedau, a.y.b. Nodwyd hefyd yr angen am hyblygrwydd ac adolygu parhaus.
- Yr oedd angen gweledigaeth eglur o'r sefyllfa y dymunai Cymru fod ynddi ymhen 5-10 mlynedd. Byddai'r drafodaeth hon a rhai a'i dilynai yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor gyfrannu ei farn ar y weledigaeth honno. Byddai'r broses hefyd yn dynodi dewisiadau.
- Mynegwyd pryder ynghylch dilysrwydd rhai o'r ystadegau a oedd yn y ddogfen, a allai arwain at gasgliadau camarweiniol. Er enghraifft, nid oedd y ffigurau'n cydnabod bod y bwlch rhwng Cymru a Lloegr yn agor yn sylweddol. Nodwyd, pe câi'r ffigurau eu haddasu i adlewyrchu'r cynnyrch mewnwladol crynswth is, yn unol â'r trafodaethau blaenorol, y byddai pob sector heblaw gweithgynhyrchu a iechyd yn perfformio ar lefel is nag yn Lloegr. Yng ngoleuni'r drafodaeth hon, cytunwyd y byddai'r swyddogion yn ailedrych ar y ffigurau, gan roi ystyriaeth i'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
- Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y cyfeirio parhaus at lefelau medrau isel yng Nghymru. Nodwyd bod lefel medrau llawer uwch yng Nghymru hyd at y 1980au. Y broblem oedd nad oedd cyfle i'r rhai a feddai ar y medrau hynny eu defnyddio yng Nghymru, ac yr oedd hyn wedi arwain yn uniongyrchol at broblem allfudo. Awgrymwyd, felly, y gallai Cymru greu gweithlu medrus, ond na allai ei gadw. Eglurodd y swyddogion mai'r bwriad oedd tynnu sylw at y ffaith bod cyfran uwch na'r cyfartaledd o rai heb fedrau yng Nghymru. Cytunwyd i ddatblygu'r pwyntiau hyn ymhellach yn y drafft. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
- Yr oedd angen cymhariaeth eglur yn y ddogfen â gwledydd a rhanbarthau eraill, yn cynnwys y rhai a oedd wedi wynebu heriau economaidd tebyg a'u goresgyn.
- Yr oedd angen i'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol ymwneud, i ryw raddau, â dewis enillwyr. Yng ngolwg hynny, mynegwyd pryder nad oedd cyfeiriad yn y papur at ddetholusrwydd y sectorau. Eglurodd y swyddogion mai'r bwriad oedd datblygu'r thema hon yn llawn, gan gynnwys dadansoddiad o gyfraddau goroesi sectoraidd. Yr oedd y ffigurau dechreuol yn dangos bod cyfran uwch o gynnyrch mewnwladol crynswth Cymru yn cael ei chynhyrchu yn y sectorau twf is.
- Dylid hefyd gynnwys gwahaniaethu daearyddol a thargedu rhanbarthol yn y strategaeth. Yr oedd hyn yn thema a amlygwyd yn gryf yn y sioeau teithiol sector preifat diweddar.
- Nid oedd Tabl 2 ond yn giplun ac nid oedd yn dadansoddi tueddiadau neu gyfatebiaethau rhwng Cymru a'r DU. Ar ben hynny, yr oedd angen cynnwys llawer mwy o ddadansoddi ar gyfer yr awgrym ym mharagraff 2.8 bod Cymru'n sylweddol wahanol i weddill y DU er mwyn dangos sut y daethpwyd i'r fath gasgliad. Yn y cyd-destun hwn, cytunwyd mai nid ymdrin â'r prinder medrau oedd yr unig ateb a bod angen ymyriadau eraill hefyd.
- Dylid cynnwys yr amcan/targed canolog ym mhennod gyntaf y strategaeth. Dylai'r map llwybrau manwl ymddangos wedyn yng ngweddill y ddogfen.
- Yr oedd yn bwysig peidio â cholli golwg ar yr angen i symud rhai economaidd anweithredol i waith.
- Nid oedd cyfeiriad yn y papur at nifer o faterion allweddol fel twristiaeth, datblygu cynaliadwy, seilwaith (TGCh/trafnidiaeth, a. y. b.).
- Dylid rhoi mwy o bwyslais ar arloesi a menter.

Crynodeb y Cadeirydd

4.3 Wrth grynhoi, gwnaeth y Cadeirydd y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd y drafodaeth ddechreuol hon yn dangos bod amrediad eang o faterion y dymunai'r Pwyllgor eu gweld yn y strategaeth. Ymhlith y rhain yr oedd detholusrwydd y sectorau, seilwaith, gweithgaredd economaidd, cysylltiadau ag addysg, a.y.b.
- Yr oedd yn bwysig cydnabod nad oedd economi Cymru'n uned hunangynhwysol a bod angen rhoi unrhyw strategaeth ar gyfer datblygu economaidd yn gadarn yn y cyd-destun byd-eang. Ar yr un pryd, rhaid rhoi sylw pendant i bobl Cymru a'u hanghenion unigol, gan gynnwys anghenion y rhai na fuont erioed mewn gwaith.
- Er mwyn bwrw ymlaen â'r mater oddi mewn i amserlen y cydnabuwyd ei bod yn un uchelgeisiol iawn, yr oedd angen i'r Pwyllgor ystyried y dewisiadau strategol, ar sail dadansoddi trwyadl.
- Nid oedd yn ddigon cyflwyno dogfen strategaeth lefel uchel heb ddangos y modd i'w chyflawni. Yr oedd yn holl bwysig dangos nid yn unig lle'r oedd yr economi ar hyn o bryd ac i ba gyfeiriad y dylai fynd, ond hefyd sut y cyrhaeddai yno.

Eitem 5: Adroddiad Tasglu Medrau Cymru

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan groesawu Brian Connolly, Cadeirydd y Tasglu, Sheila Drury ac Ian Rees (aelodau o'r Tasglu) a Barbara Morris, swyddog gweithredol.

5.2 Rhoddodd Brian Connolly gyflwyniad i'r Pwyllgor (atodir copïau o'r sleidiau yn Atodiad 1 i'r cofnodion hyn). Yn ystod y cyflwyniad gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd y ffigurau a oedd yn sail i'r adroddiad yn ddwy flwydd oed yn awr. Mae'n ddigon posibl bod y sefyllfa wedi gwella i ryw raddau ers hynny.
- Yr oedd "Lefel 3" yn cyfateb i Safon Uwch.
- Nid cynnyrch mewnwladol crynswth oedd yr unig fodd i fesur y sefyllfa economaidd. Yr oedd lefelau cyflogaeth yn holl bwysig hefyd.
- Bu newid sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf hyn yn y pwyslais ar fedrau sylfaenol, a oedd bellach wedi ymwreiddio mewn addysg ysgolion o bump oed. Er na chynhaliwyd astudiaeth ffurfiol eto, yr oedd y dystiolaeth ddechreuol yn dangos bod y pwyslais newydd hwn ar lythrennedd a rhifogrwydd yn llwyddo.
- Yr oedd yr argymhellion allweddol yn yr adroddiad yn ymwneud â'r rhai y tu allan i'r ysgol.
- Byddai cyflwyno addysg am ddim hyd lefel 3 yn debygol o dalu ar ei ganfed. Fodd bynnag, nid oedd y cynnig wedi ei brisio.
- Wrth grynhoi, diolchodd Brian Connolly i holl aelodau'r Tasglu ac i'r rhai a oedd wedi gwneyddu ei waith. Ategyd hyn gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

5.3 Diolchodd y Cadeirydd i Brian Connolly am ei gyflwyniad ac agorodd y llawr i gwestiynau, ac yn ystod y rhain gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Yr ymateb cyffredinol oddi wrth yr Aelodau oedd eu bod yn croesawu'r argymhellion yn yr adroddiad.
- Croesawodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y farn (a fynegwyd yn argymhellion yr adroddiad) y dylai'r strategaeth economaidd ddynodi sectorau twf allweddol. Nid oedd y dasg o ddynodi sectorau unigol wedi ei rhoi i'r grp.
- Eglurodd y Tasglu fod materion a oedd yn ymwneud â gwahanu'r rhywiau mewn addysg a hyfforddiant ac enillion benywod y tu allan i'r cylch gwaith diffiniedig a roddwyd i'r grp.
- Yr oedd cynigion i ehangu nifer ac amrediad prentisiaethau modern ac i ddileu'r rhwystrau oedran.
- Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ar rôl yr undebau llafur wrth hybu uwchraddio medrau mewn medrau sylfaenol yn y gweithle. Enwyd uned Cyngres yr Undebau Llafur a oedd yn gyfrifol yn yr adroddiad a chytunwyd y byddai'n chwarae rhan holl bwysig mewn unrhyw ymgyrch i hybu ymwybyddiaeth o gyfleoedd, a.y.b.
- Cydnabuwyd nad yr Unol Daleithiau oedd yr unig fodel ar gyfer economi entrepreneuriaidd. Er enghraifft, yr oedd lefel eithaf isel o entrepreneuriaid confensiynol yn Sweden ac eto yr oedd ei heconomi'n llwyddiannus. Yr oedd yn bwysig ystyried y gwahanol batrymau hyn hefyd.
- Ar fater y berthynas rhwng CCAH a changhennau rhanbarthol y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru, cytunwyd bod y rôl ranbarthol yn holl bwysig. Eglurodd y Tasglu fod y CCAH yn eu hanfod yn rhwydwaith darparu, tra oedd canghennau rhanbarthol y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru yn fwy strategol eu natur, gan ddarparu cysylltiadau â'r WDA, y sector preifat, y Cynulliad Cenedlaethol, a.y.b. O ran ariannu, nodwyd bod ariannu, o dan y CHMau, wedi ei gorllannu'n rhanbarthol, tra oedd ariannu o dan y trefniadau newydd wedi ei ganoli fel y gellid cael cyswllt agosach rhwng arian ac anghenion rhanbarthol/lleol.
- Nodwyd bod goblygiadau cryf yn y cynigion mewn perthynas â rheoli cleientau/canolfan ragoriaeth ar gyfer busnesau a oedd yn dechrau, a.y.b., i adolygiad y Pwyllgor o gymorth a datblygu ar gyfer busnesau. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y graddau yr oedd y Tasglu wedi ymrwymo i'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru fel y corff cyd-drefnu canolog, nodasant mai'r ddarpariaeth o gefnogaeth integredig oedd y mater allweddol. Yr oedd hyn yn y bôn yn fater i'w benderfynu gan y Cynulliad.

Crynodeb y Cadeirydd

4. Wrth grynhoi:

- diolchodd y Cadeirydd i'r Tasglu ar ran y Pwyllgor a'i ganmol am ei waith.
- dywedodd fod medrau, er nad oeddent yn rhan uniongyrchol o gylch gwaith y Pwyllgor, yn elfen holl bwysig, er hynny, o ddatblygu economaidd a bod gan y Pwyllgor fuddiant cryf o'r herwydd yn y canlyniadau a oedd yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn a fyddai hefyd yn cyfrannu i'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol
- dywedodd y byddid yn rhoi ystyriaeth i argymhellion yr adroddiad yn adroddiad y Pwyllgor ar gymorth a datblygu ar gyfer busnesau yng Nghymru.

Eitem 6: LEADER+ – Dogfen Rhaglennu Sengl ddrafft

6.1 Croesawodd y Cadeirydd Peter Rogers o'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Gan fod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig eisoes wedi archwilio LEADER+, yr oedd Peter Rogers yn bresennol i gyfrannu barn ei Bwyllgor ac i ddychwelyd ato â barn y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

6.2 Cyflwynodd Dr Caroline Turner y papur eglurhaol a'r Ddogfen Rhaglennu Sengl ddrafft. Eglurodd fod LEADER+ yn rhan o'r rhaglen cronfeydd strwythurol. Yn wahanol i'r rhaglenni LEADER blaenorol a oedd yn canolbwyntio ar raglenni generig, yr oedd LEADER+ yn canolbwyntio ar themâu. Cytunwyd ar wella ansawdd bywyd (a ganolbwyntiai ar ddatblygu cymunedol) ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion lleol (a ganolbwyntiai ar ddatblygu busnes) fel themâu ac ychwanegid trydedd thema, sef yr amgylchedd. Rhoddai LEADER+ bwyslais cryf ar arloesi, yr oedd y rhaglenni LEADER blaenorol wedi canolbwyntio ar bartneriaethau lleol ond nid oedd y rhain yn arloesol bellach gan eu bod yn cael eu defnyddio'n awr yn holl raglenni'r cronfeydd strwythurol. Byddid yn dosbarthu arian yn ôl ansawdd y cais ac yr oedd pob rhan o'r Gymru wledig yn gymwys. Y grwpiau targed oedd benywod a phobl ifanc, teuluoedd ffermio, rhai tangyflogedig a'r busnesau lleiaf. Byddid yn ystyried awgrymiadau eraill am grwpiau targed.

6.3 Yr oedd dau ddewis gweithredu: rhaglen weithredu a grantiau hollgynhwysol (sef y dewis a ffafriwyd). Yr oedd y rhain wedi gweithio'n dda yng Nghymru o dan raglen LEADER 1. Eglurodd Dr Turner yr amserlen ar gyfer y rhaglen. Yr oedd y Ddogfen Rhaglennu Sengl ddrafft wedi ei hanfon at 85 o gyrff a mudiadau. Byddid yn derbyn ymatebion erbyn 23 Hydref. Câi'r ddogfen rhaglennu sengl ei hailddrafftio a'i rhoi gerbron y Cyfarfod Llawn ar 14 Tachwedd. Fe'i hanfonid at y Comisiwn Ewropeaidd ar 17 Tachwedd. Ar ôl negodiadau, disgwyliod y câi'r rhaglen ei chymeradwyo fis Ebrill nesaf fel y gallai ddechrau yn yr haf. Byddai rhai a fynegasai ddiddordeb mewn ffurfio partneriaethau yn cael eu gwahodd i drafod eu cynigion heb unrhyw rwyngedigaeth arnynt hwy neu'r Cynulliad.

6.4 Gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau a thrafodaeth ar y ddogfen rhaglennu sengl ddrafft a gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Ni ddylai ardaloedd a oedd o dan LEADER+ fod â phoblogaeth o lai na 120 o drigolion y cilomedr sgwâr. Yr oedd y ddau dabl a restrwyd yn y ddogfen rhaglennu sengl ddrafft yn yr adran 'Diffiniad o'r ardal sydd yn gymwys o dan LEADER+' yn gymwys i dderbyn y rhaglen.
- Byddid yn tynnu sylw partneriaethau at yr egwyddor 1/3:1/3:1/3 a disgwyliod iddynt sicrhau cydbwysedd rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat.
- Y grant hollgynhwysol oedd y dull gweithredu a ffafriwyd oherwydd un o broblemau'r rhaglenni LEADER blaenorol oedd llif arian. Byddai'r WDA yn gweithio gyda phartneriaethau, gan roi cyfarwyddyd er mwyn osgoi anawsterau llif arian yn y dyfodol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y ddogfen rhaglennu sengl ddrafft yn rhagdybio mai'r grant hollgynhwysol a gâi ei ddefnyddio, er nad oedd hynny wedi ei gymeradwyo eto gan y Comisiwn.
- Cydnabuwyd mai un rhan bwysig o LEADER+ fyddai annog pobl ifanc i aros mewn ardaloedd gwledig.
- Yr oedd Wrecsam wedi mynegi diddordeb mewn ffurfio grp gweithredu lleol gydag ardaloedd o Swydd Gaer a gogledd Swydd Stafford gan fod iddynt fuddiannau economaidd a chymdeithasol cyffredin. Fodd bynnag, teimlai'r Cynulliad fod rhesymau gweinyddol, cyfreithiol a gwleidyddol y byddai angen eu hystyried cyn y gellid ffurfio grwpiau gweithredu lleol gydag awdurdodau yn Lloegr.
- Ychydig cyn cytuno ar y rhaglen gyda'r Comisiwn, byddid yn gwahodd ceisiadau ffurfiol oddi wrth y 85 o gyrff a mudiadau ar restr y Cynulliad.
- Byddai pob partneriaeth yn gorfod penderfynu sut i ffurfio ei grp gweithredu lleol, h.y. a ddylid ei seilio ar yr awdurdod lleol neu ar grp LEADER a oedd yn bod eisoes.
- Ni phenderfynwyd eto a fyddai ceisiadau'n cael eu cymeradwyo gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru neu gan yr Is-adran Materion Ewropeaidd. Fodd bynnag, cyn gynted ag y câi ceisiadau eu cymeradwyo, byddid yn llunio cynlluniau busnes. Os cytunid ar ddull gweithredu'r grantiau hollgynhwysol, byddai'r WDA yn gweithio gyda grwpiau i sefydlu rhwydweithio, trafod manylion y cynlluniau busnes, trefnu i dalu arian ymlaen llaw a threfnu cyllid cyfatebol gyda'r Cynulliad.
- Dylai'r ardaloedd cymwys fod yn gydlynol yn gymdeithasol ac yn economaidd a chydweddu â'r lefelau poblogaeth a gynigiwyd gan y Comisiwn.

- Yr oedd yr Is-adran Materion Ewropeaidd yn bwriadu ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru a phob corff a mudiad gwledig i roi cyhoeddusrwydd i'r rhaglen LEADER+.
- Mynegwyd pryder gan yr Aelodau fod gwahanol feini prawf yn cael eu defnyddio i ddiffinio ardaloedd gwledig yn rhaglenni Amcan 1 a 2 a rhaglenni LEADER+. Cytunasant ei bod yn holl bwysig sicrhau cyd-drefnu buan rhwng y rhaglenni, ac aelodaeth gyffredin o'r pwyllgorau monitro fel bod elfen o gydgyssylltu.
- Cadarnhaodd Dr Turner fod y rhaglen LEADER+ yn defnyddio'r un diffiniad o wledigrwydd â'r Cynllun Datblygu Gwledig. Yr oedd pennod 2 o'r ddogfen rhaglennu sengl ddrafft yn seiliedig i raddau helaeth ar y dadansoddiad economaidd yn y Cynllun Datblygu Gwledig. Cynigiwyd y dylai pwyllgorau monitro'r Cynllun Datblygu Gwledig a LEADER+ gael aelodaeth orgyffyrddol er mwyn sicrhau cyd-drefnu. Yr un tîm yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru oedd yn gweithio ar elfennau Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop yn y Cynllun Datblygu Gwledig, LEADER+ ac Amcan 1 er mwyn sicrhau cysondeb. Tynnwyd sylw at y ffaith mai'r UE, nid y Cynulliad oedd wedi gosod y patrwm.

Crynodeb y Cadeirydd

6.5 Mynegodd y Cadeirydd gymeradwyaeth y Pwyllgor i'r ddogfen rhaglennu sengl ddrafft ac yn arbennig y nod oedd ynddi o wella sefyllfa'r rhai tangyflogedig, un o'r grwpiau targed. Nododd y dylid monitro ffurf y partneriaethau, yn enwedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau tegwch. Yr oedd yn bwysig defnyddio arian LEADER+ yn effeithiol er mwyn cynnwys graddoliaeth yn y rhaglen.

Eitem 7: INTERREG IIIA– Dogfen Rhaglennu Sengl Ddrafft

7.1 Wrth gyflwyno'r papur, eglurodd Mike Pollard ei fod yn adeiladu ar sail y rhaglen INTERREG II. Yr oedd yn un o raglenni'r Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd a châi ei rhedeg gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru mewn cyd-drefniant ag Amcan 1. Ei blaenoriaethau oedd hwyluso cydweithredu trawsffiniol rhwng awdurdodau cyfagos a hybu twf cynaliadwy. Byddid yn gwario 48 miliwn o ewros ar y rhaglen – 28 miliwn o ewros yng Nghymru ac 17 miliwn o ewros yn Iwerddon. Yr oedd y rhaglen yn cynnwys yr un ardal ag INTERREG II a dyna pam nad oedd Abertawe wedi ei chynnwys. Credid ei bod yn fwy priodol cynnwys Abertawe yn y rhaglen Llinyn B. Yr oedd copïau o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer Llinyn B wedi eu gosod yn y Llyfrgell. Gofynnodd yr Aelodau am bapur a map i egluro amrediad y rhaglenni ar gyfer pob ardal . **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

7.2 Gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau a thrafodaeth ar y rhaglen a gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd y rhaglen weithredu ddrafft wedi ei chynhyrchu gan grwpiau drafftio yn Iwerddon a Chymru.
- Er bod arian anrwymedig yn weddill o'r rhaglen flaenorol, ni ellid ei drosglwyddo i'r rhaglen gyfredol.
- Yn 1994-99, tynnwyd INTERREG o ddyraniad yr arolwg gwariant cyhoeddus ond yn y rhaglen 2000-06 byddai arian ychwanegol ar gyfer INTERREG ar ben y dyraniad presennol o'r arolwg gwariant cyhoeddus.
- Cadarnhawyd bod Cymru'n derbyn cyfran gynyddol o'r dyraniad INTERREG A. Yn rhaglen 1994-99 derbyniodd Cymru 12% o ddyraniad y DU ond yn 2000-06 byddai Cymru'n derbyn 17% o'r dyraniad. Byddai cyfran Cymru o Linyntau B a C yn dibynnu ar ansawdd y ceisiadau a dderbynnid.
- Byddai ceisiadau am INTERREG III B a C yn cael eu hanfon i Whitehall ond byddai rhan i'r Cynulliad wrth eu hasesu. Fodd bynnag, yr Is-adran Materion Ewropeaidd yn hytrach na Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a gymerai ran yn y ceisiadau B a C gan y byddai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi ei rhagwahardd oherwydd ei rhan mewn INTERREG IIIA.
- Yr oedd gwerth yr ewro yn y rhaglen weithredu ddrafft wedi ei bennu i ddibenion enghreifftio.

Crynodeb y Cadeirydd

7.3 Mynegodd y Cadeirydd ddiddordeb y Pwyllgor yn y cronfeydd Ewropeaidd llai a'r pwys a roddai ar weld cyd-drefnu rhwng y rhaglenni. Croesawodd y papur arfaethedig ar linyntau ychwanegol y rhaglen INTERREG.

Eitem 8: Y Diweddaraf ar y Cronfeydd Strwythurol

8.1 Rhoddodd Phil Williams AC yr wybodaeth ddiweddaraf i'r cyfarfod am y cyfarfod o'r Pwyllgor Monitro a gynhaliwyd ar 16 Hydref:

- Penderfynwyd y byddai'r cwbl o'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- Yr oedd dull gweithredu 'tîm Cymru' yn amlwg drwy'r cyfarfod a oedd yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.
- Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Monitro am ddyfarniad bod y cyfrannau o arian a bennwyd ym mhob blaenoriaeth yn y ddogfen rhaglennu sengl yn gyfreithiol rwymol. Golygai hyn fod llai o hyblygrwydd nag a gredid gynt.
- Cymeradwywyd Dogfen Gyflenwol y Rhaglen ac yr oedd hyn yn arwydd bod prosiectau wedi eu cymeradwyo.
- Yr oedd angen o hyd i'r Pwyllgor Monitro gadarnhau ei ddiffiniad o wledigrwydd mewn ardaloedd trefol. Ni fyddai hyn yn gohirio cymeradwyo prosiectau.

- Cymeradwywyd y rhan fwyaf o'r prosiectau dull carlam. Yr oedd dau heb eu cymeradwyo'n llawn. Ni roddwyd cymeradwyaeth lawn i Flaenoriaeth 1 Mesur 1 a oedd yn ymwneud â chymorth ariannol i fusnesau bach a chanolig eu maint (gan gynnwys cynnig Cyllid Cymru) am ei fod yn ymgeisio am 70% o holl arian y rhaglen. Penderfynwyd capio'r holl geisiadau ar 50%. Ar ôl Rhagfyr byddid yn adolygu hyn yng ngoleuni penderfyniad y Cynulliad ar strategaeth i gefnogi busnesau bach a chanolig eu maint.
- Capiwyd y cynigion amaeth-bwyd ar 50% hefyd gan ei fod yn ymddangos yn ymwrymiad mawr yn y cyfnod dull carlam.
- Cafwyd trafodaethau ar Flaenoriaeth 4.4 (Datblygu Adnoddau Dynol). Er bod y Pwyllgor Monitro'n cefnogi'r cynnig arweiniol o dan y flaenoriaeth hon, byddai'n golygu gorymrwymo i'r flaenoriaeth hon ar gyfer cylch gwario Medi. Byddai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n arwain y trafodaethau ar hyn.

8.2 Gofynnodd y Cadeirydd wedyn am gwestiynau i John Clarke, Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd problem ynghylch y toreth o gynlluniau gweithredu rhanbarthol a oedd yn gorgyffwrdd ar rai materion ac yn hepgor materion eraill. Penderfynwyd sefydlu chwe chynllun gweithredu blaenoriaethau. Byddid yn sefydlu corff cyffredinol erbyn Ionawr nesaf a gallai ymgymryd â statws corff atebol.
- Byddid yn ymdrin â'r gorgyffwrdd rhwng cynlluniau gweithredu rhanbarthol a lleol mewn modd ymarferol, fesul prosiect. Yr oedd hyn yn fodd i gynnwys y bartneriaeth mewn penderfynu ac yn rhan o chwarae fel tîm. Beirniadwyd hyn gan rai Aelodau oherwydd diffyg arolwg strategol a'r defnydd o benderfyniadau o wythnos i wythnos i guddio diffyg strategaeth.
- Dadleuodd John Clarke fod cyfeiriad strategol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n dilyn strategaethau cenedlaethol. Buasai'n ddefnyddiol iawn, er enghraifft, er mwyn cymeradwyo prosiectau dull carlam pe bai strategaeth cymorth busnes ar waith.
- Cadarnhaodd John Clarke fod y gymeradwyaeth i brosiectau dull carlam yn weddol gyson â'r cynllun. Dywedodd mai anghywir oedd adroddiadau cynharach i'r perwyl mai eu targed oedd cymeradwyo ceisiadau a dderbynnid yng Ngorffennaf erbyn diwedd Gorffennaf. Dywedodd mai'r hyn yr oeddent wedi ymrwymo iddo oedd cymeradwyo *mewn egwyddor* erbyn diwedd Gorffennaf a'u bod wedi cyflawni hyn ar y cyfan. Rhoddodd John Clarke sicrwydd i'r Pwyllgor nad oedd buddiolwyr y ceisiadau wedi eu drysu gan amseriad y prosiectau dull carlam.
- Ni ellid cymeradwyo prosiectau dull carlam nes cymeradwyo Dogfen Gyflenwol y Rhaglen. Ar ôl ei chymeradwyo ar 16 Hydref, cytunwyd ar nifer fawr o brosiectau.
- Rhoddodd John Clarke sicrwydd i'r Pwyllgor fod Cymru ar y blaen, o'i chymharu â rhanbarthau yn Lloegr, yn y broses weithredu. Cymru oedd y rhanbarth cyntaf i gael cymeradwyaeth i brosiect o dan y Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd.
- Nid oedd y proffil gwario wedi ei newid ers y Pwyllgor Monitro diwethaf. Yr oedd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cadw at ei phroffil ymrwymiadau. Nid oedd yr oedi cyn cymeradwyo Dogfen Gyflenwol y Rhaglen o bwys mawr ac nid oedd wedi effeithio ar y proffil ymrwymiadau.
- Cadarnhaodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd nad oedd y sawl a gyflawnai'r archwiliad annibynnol o gyllid Ewropeaidd wedi ei ddynodi eto. Byddai'r archwiliad yn edrych ar yr holl gamau a gymerwyd wrth weithredu'r rhaglen.
- Codwyd cwestiynau ynghylch llythyr oddi wrth Peter Hain at y Prif Ysgrifennydd. Nododd John Clarke y byddai'r awdurdodau lleol a oedd wedi cysylltu â Peter Hain wedi disgwyl ymgymryd â rôl y Corff Atebol, a fyddai wedi arwain at Gronni swm mawr o arian i'w wario at gynlluniau gweithredu lleol. Gwrthbrofodd yr awgrym bod tagfa yn y system. Yr oedd 250 o geisiadau wedi eu derbyn ar gyfer cylch Medi. Y flwyddyn nesaf byddai rhaglen dreiglol yn hwyluso'r broses gwerthuso. Ni allai wneud sylw ar gwestiwn diffyg cyfeiriad gwleidyddol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gan fod hyn yn fater i'w ateb gan wleidyddion. Yr oedd y ffurflen gais, y cyfeirid ati yn y llythyr, yn hwy na'r rhai ar gyfer rhaglenni blaenorol am ei bod yn gofyn cwestiynau ynghylch cyfle cyfartal a chynaliadwyedd. Fodd bynnag, yr oedd cynlluniau ar waith i gymhennu'r ffurflen gais.

8.3 Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr anawsterau a geid wrth geisio gweld papurau ar wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Cadarnhaodd John Clarke nad oedd papurau ar gael tan ar ôl cyfarfodydd y Pwyllgor Monitro. Fe'i hatgoffwyd ei bod wedi ei chytuno mewn cyfarfod blaenorol y dylai'r Aelodau allu gweld papurau'r Pwyllgor Monitro. **[Cam Gweithredu: John Clarke]** Cadarnhawyd y dylai cofnodion y Pwyllgor Monitro fod ar gael ar y rhyngwyd 48 awr ar ôl y cyfarfod.

Eitem 9: Materion eraill

9.1 Gofynnodd a derbyniodd y Cadeirydd gymeradwyaeth y Pwyllgor iddi gymryd lle Ann Jones fel cynrychiolydd y Blaid Lafur ar baneli penodiadau cyhoeddus am y tro. Byddai angen un yn lle Mike German hefyd.